## Tasg 2

# Prynu ar y we'n ddiogel

Mae miloedd o bobl yn prynu eitemau ar y we bob dydd a dydyn nhw ddim yn cael problemau. Fodd bynnag, mae rhai pobl yn cael eu twyllo.

Felly, rhaid bod yn ofalus iawn wrth brynu ar y we.

Dyma rai syniadau i'ch helpu chi:

Nid aur yw popeth melyn! Mae rhai gwefannau'n edrych yn lliwgar ac yn gyffrous, ond maen nhw'n twyllo pobl. Peidiwch â chael eich twyllo gan olwg gwefan.

Fel arfer, mae gwefannau'r cwmnïau mawr yn ddiogel ond rhaid bod yn ofalus iawn pan rydych chi'n delio gyda chwmnïau bach.  Mae'n well peidio â phrynu o wefannau tramor.

Fel arfer, mae gwefannau gyda'r symbol clo yn ddiogel. 


Mae cyfeiriad y wefan yn bwysig. Mae'r cyfeiriadau **https://** yn fwy diogel na **http://**.

Chwiliwch am gyfeiriad a rhif ffôn y cwmni ar y wefan cyn prynu.  Mae hyn yn bwysig iawn.

Cyn prynu, gwnewch yn siwr eich bod chi'n gallu anfon yr eitemau yn ôl, neu fynd â nhw i siop, os dydych chi ddim yn hapus â nhw.

Dilynwch y camau hyn a gobeithio bydd popeth yn iawn.

1. Beth mae'r wefan yn ei ddweud am y canlynol?

cwmnïau mawr

cwmnïau tramor

gwefannau lliwgar, cyffrous

symbol clo

cyfeiriad y wefan

cyfeiriad a rhif ffôn

2. Ysgrifennwch lythyr at Irfan yn rhoi cyngor iddo ynglŷn â sut i siopa ar y we'n ddiogel. Defnyddiwch y templed yma os ydych chi eisiau.

| | |
|---|---|
| | ← Eich cyfeiriad chi |
| | ← Y dyddiad |
| | ← Annwyl … |
| | ← Pam mae siopa ar y we yn syniad da |
| | ← Pam mae angen bod yn ofalus |
| | ← Eich cyngor chi |
| | ← Cloi'r llythyr yn dda |

Cofiwch, os ydych chi'n rhoi cyngor, gallwch chi ddefnyddio:

**Dylech chi + treiglad meddal**:

Dylech chi chwilio am …
Dylech chi wneud yn siwr bod …
Dylech chi ddefnyddio …

**Gorchmynion**:

Chwiliwch am …
Gwnewch yn siwr bod …
Defnyddiwch …